# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4**

**Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 14 Rhagfyr 2022

Amser: 09.30 - 11.20

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13065

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS<br>Joyce Watson AS (yn lle Rhianon Passmore AS) |
| Tystion: | Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol<br>Andrew Jeffreys, Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Cyfalaf Strategol, Llywodraeth Cymru<br>Emma Watkins, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## Rhag-gyfarfod Preifat - Anffurfiol (09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus mewn perthynas â phenodiadau cyhoeddus.

2.3 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Prif Weinidog ynghylch goblygiadau ariannol Biliau.

2.1 PTN 1 – Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2023-2024: Ymateb Comisiwn y Senedd – 8 Tachwedd 2022

2.2 PTN 2 – Llythyr gan Gomisiwn y Senedd: Diweddariad i'r Pwyllgor yn dilyn Datganiad hydref y DU – 21 Tachwedd 2022

2.3 PTN 3 – Llythyr gan y Prif Weinidog at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-Sefydliadol – Y Prif Weinidog a Chyngor Penaethiaid y Llywodraethau Datganoledig – 10 Tachwedd 2022

2.4 PTN 4 – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Banc Seilwaith y DU Ymateb Llywodraeth Cymru – 17 Tachwedd 2022

2.5 PTN 5 – Trefniadau ariannu ar ôl gadael yr UE: Ymateb Llywodraeth Cymru – 21 Tachwedd 2022

2.6 PTN 6 – Trefniadau ariannu ar ôl gadael yr UE: Ymatebion Llywodraeth y DU – 21 Tachwedd 2022

2.7 PTN 7 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 – 23 Tachwedd 2022

2.8 PTN 8 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Cyllid: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol (F:ISC) – 24 Tachwedd 2022

2.9 PTN9 – Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 – Memorandwm Esboniadol Diwygiedig, 5 Rhagfyr 2022

2.10 PTN 10 – Llythyr gan y Prif Weinidog: Craffu ar oblygiadau ariannol Biliau – 7 Rhagfyr 2022

2.11 PTN 11 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus: Ymchwiliad i Benodiadau Cyhoeddus – 7 Rhagfyr 2022

**2.12 PTN 12 - Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rhagor o wybodaeth yn dilyn y sesiwn ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru) ar 9 Tachwedd 2022 - 8 Rhagfyr 2022**

## 3 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24: Sesiwn dystiolaeth 1

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar Graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24 gan y tystion a ganlyn: Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol; Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr y Trysorlys; ac Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr, y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth.

3.2 Cytunodd y Gweinidog i wneud y canlynol:

- Gofyn i'r Gweinidog Newid Hinsawdd ddarparu nodyn ar rôl weithredol Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wrth ariannu tai cymdeithasol.
- Nodyn ar gymorth ardrethi annomestig, yn enwedig mewn perthynas â chymhwysedd sefydliadau cenedlaethol mwy sydd â phresenoldeb ar y stryd fawr i gael cymorth ar ardrethi.
- Nodyn ar y cynnydd a wnaed i sicrhau'r pwerau gofynnol i weithredu treth tir gwag a manylion am unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar y mater hwn.
- Nodyn ar nifer y cynlluniau Menter Cyllid Preifat yng Nghymru sydd i fod i ddod i ben yn y 5 mlynedd nesaf.
- Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddarparu nodyn ar unrhyw ddisgwyliad y bydd cyllid gwell ar gyfer Gofal Sylfaenol.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.